



ADRODDIAD CYFLOG AR SAIL RHYWEDD

CYFNOD ADRODD: MAWRTH 2019

GENDER PAY REPORT

REPORTING PERIOD: MARCH 2019

Noder bod yr adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Beth yw'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau?

Ers 2017, mae gofyn i sefydliadau sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr adrodd ar eu data Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn flynyddol ac yn unol â Rheoliadau 2017 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus).

Drwy ddiffiniad, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel a ganlyn:

"Y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yw'r gwahaniaeth yng nghyflog cyfartalog a chanolrifol rhwng dynion a menywod".

Mae'n bwysig nodi nad yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r un fath â Chyflog Cyfartal, gan fod y term hwn yn cyfeirio at ddynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am yr un gwaith. Mae Cyflog Cyfartal wedi bod yn ofyniad cyfreithiol yn y Du ers 1970.

Bydd yr adroddiad hwn yn ystyried data bwlch cyflog rhwng y rhywiau Coleg Gwent, ac yn bwysicach, yn nodi ac yn amlinellu ein hymrwymiad i wella hyn o flwyddyn i flwyddyn.

Ein Coleg



Parth Dysgu Blaenau Gwent

Coleg Gwent yw coleg addysg bellach mwyaf Cymru ac mae'n gweithredu ar draws pum campws sydd wedi eu lleoli'n hygyrch o fewn bwrdeistrefi Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Ni yw un o'r colegau gorau yng Nghymru, ac yn y blynyddoedd nesaf, rydym eisiau parhau i rymuso ein dysgwyr, creu ffyniant yn ein cymunedau, a chynnig mwy o gyfleoedd i newid bywyd.

Yn ganolog i'n gweledigaeth, ein hamcanion a'n gwerthoedd craidd yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Coleg yn credu mewn bod yn sefydliad cynhwysol ac amrywiol lle mae ein holl ddysgwyr, cydweithwyr a phartneriaid yn teimlo bod croeso iddynt, ac yn un lle mae ein hamgylchedd gwaith a'r gwasanaethau a ddarparwn yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl a'r cymunedau rydym yn eu hymgysylltu.

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau'n llwyddiannus, rydym yn sylweddoli bod rhaid inni fod yn rhagweithiol wrth gael gwared ar y rhwystrau y gall rhai pobl eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys wrth chwilio am waith gyda ni. Rydym felly yn sicrhau yn barhaus bod ein harferion pobl nid yn unig yn cydymffurfio, ond yn rhagweithiol, ac yn gweithio yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

At hynny, drwy Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Coleg, rydym yn ceisio cynnal cymuned barchus lle gall dysgwyr a chydweithwyr ddysgu, datblygu a thyfu mewn lle urddasol a diogel, ac rydym yn cydnabod y bydd y gostyngiad yn ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn mynd peth ffordd i'n cefnogi ni i gyflawni hyn a phob dyhead cydraddoldeb arall.

Gofynion Adrodd

Mae rheoliadau 2017 y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn ei wneud yn ofynnol i'r Coleg adrodd ar y canlynol o fewn yr adroddiad hwn:


- Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau
- Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau
- Chwarteli cyflog a dosraniad rhywedd
- Bwlch tâl bonws cymedrig rhwng y rhywiau
- Bwlch tâl bonws canolrifol rhwng y rhywiau
- Sylwebaeth i gefnogi'r uchod

Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn trafod pob pwynt un ar y tro, yn ychwanegol at rannu gwybodaeth bellach ynghylch data cyflog rhwng y rhywiau ledled y DU ac o fewn y sector addysg.

Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau Coleg Gwent

Mae'r siart bar isod yn arddangos ein bylchau cyflog cymedrol a chanolrifol rhwng y rhywiau ar sail data fel ar 31 Mawrth 2019.

(Ffigwr 1)



Rhestr Termau:

Cyflog Cymedrig: Cyflog cyfartalog ar gyfer yr holl weithwyr (ar sail fesul awr).

Cyflog Canolrifol: Y pwynt canol pan fo cyflog yn cael ei osod o'r pwynt uchaf i'r pwynt lleiaf, yn rhoi safbwynt o gyflog cyffredinol yr enillwr canol (ar sail fesul awr).

Ein Chwarteli Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r tabl isod yn arddangos y dosraniad ar sail rhywedd ar draws y Coleg mewn pedwar chwarterel cyfartal yn ôl bandiau cyflog ar sail data fel ar 31 Mawrth 2019.


(Ffigwr 2)

<u>CHWARTEL ISAF</u>		<u>CHWARTEL ISAF CANOLIG</u>	
CYFANSWM YN Y CHWARTEL	388	CYFANSWM YN Y CHWARTEL	388
% O DDYNION YN Y CHWARTEL ISAF	29%	% O DDYNION YN Y CHWARTEL ISAF	35%
% O FENYWOD YN Y CHWARTEL ISAF	71%	% O FENYWOD YN Y CHWARTEL ISAF	65%
<u>CHWARTEL CANOLIG UCHAF</u>		<u>CHWARTEL UCHAF</u>	
CYFANSWM YN Y CHWARTEL	388	CYFANSWM YN Y CHWARTEL	388
% O DDYNION YN Y CHWARTEL ISAF	37%	% O DDYNION YN Y CHWARTEL ISAF	43%
% O FENYWOD YN Y CHWARTEL ISAF	63%	% O FENYWOD YN Y CHWARTEL ISAF	57%

Ein Dosraniad Rhywedd Cyffredinol ar draws y Coleg

Mae'r siart isod yn arddangos ein dosraniad rhywedd cyffredinol ar sail data fel ar 31 Mawrth 2019.

(Ffigwr 3)



Taliadau Bonws


Fel rhan o'r rhwymedigaethau adrodd statudol, mae'n ofynnol i gyflogwyr gyhoeddi'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a ganfuwyd yn eu taliadau bonws.

Noder nad oedd unrhyw daliadau bonws wedi'u prosesu yn ystod 2019 ac felly nid yw'n ofynnol i'r Coleg adrodd ar y bwlch tâl bonws cymedrig neu ganolrif rhwng y rhywiau.

Sut mae Coleg Gwent yn cymharu?

Mae'r siart isod yn arddangos bwlch cyflog cymedrol a chanolrifol rhwng y rhywiau Coleg Gwent o gymharu â'r DU a Chymru fel rhanbarth.

(Ffigur 4)




Fel y gellir gweld yn Ffigur 4, mae Coleg Gwent yn olrhain ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol y DU a Chymru yn ôl rhanbarth mewn perthynas â'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau.

Mae'r Coleg hefyd yn cyd-fynd â'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau.

Mae'r siart isod yn arddangos bwlch cyflog cymedrig a chanolrifol rhwng y rhywiau Coleg Gwent o gymharu â'r sector addysg ar draws y DU a hefyd yng Nghymru.

(Ffigur 5)



Mae Ffigur 5 yn ystyried y Sector Addysg yn benodol. Eto, mae Coleg Gwent yn olrhain ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol y DU a Chymru ar gyfer y Bwlch Cyflog cymedrig a chanolrifol Rhwng y Rhywiau o fewn y sector.

Mae Ffigurau 4 a 5 yn galonogol dros ben a bydd ein hymdrechion i wella hyn ymhellach yn parhau drwy weithredu'r camau a amlinellir dan bennawd 'Ein Hymrwymiad i Wella'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau' yn llwyddiannus.

Egluro ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein cydweithwyr ac wedi ymrwmo i greu amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol i bawb. Rydym hefyd yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am gyflawni rolau cyfatebol ar draws y Coleg.

Mae dadansoddiad ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau o 7% (yn seiliedig ar giplun o wybodaeth sy'n ddyddiedig ar 31 Mawrth 2019) yn cael ei wthio gan y canlynol:

- Yn gyffredinol, mae'r Coleg yn cyflogi llawer mwy o fenywod na dynion (Ffigur 3).
- Mae cyfran fawr ohonynt mewn rolau sy'n dod o fewn y chwarteli isaf ac isaf canolig wrth eu hasesu yn erbyn eu band cyflog.
- Ar y cyfan, mae'r rolau sydd i'w gweld yn y chwarteli isaf ac isaf canolig yn cynnwys Cymorth i Ddysgwyr, Gwasanaeth Cwsmer, Gweinyddwyr, Derbyniadau a Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Er nad yw'r Coleg yn ei hyrwyddo, mae'r rolau a ddisgrifir uchod yn aml yn denu mwy o weithwyr benywaidd.
- Mae llawer o'r rolau uchod hefyd yn addas i'w cyflawni mewn modd mwy hyblyg, a all hefyd gynnig esboniad pam mae cyfran fawr o'n gweithwyr benywaidd hefyd yn ymgymryd â rolau sy'n gweithio'n rhan amser neu ar sail cyflog fesul awr.
- Mae gan y Coleg hefyd drosiant staff isel iawn ac mae'n gweithredu yn unol â graddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, a fydd yn esbonio'r amrywiaethau bach yn ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau o flwyddyn i flwyddyn yn flaenorol.



Ein Hymrwymiad i wella'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Byddwn yn parhau i adolygu ein polisiâu pobl yn rheolaidd a sicrhau bod ein harferion yn deg, ac mae hyn yn cynnwys adolygu penderfyniadau ynghylch cyflog yn weithredol.

Ein hymrwymiad wrth symud ymlaen yw:

- **Parhau i adolygu a gweithredu mentrau sy'n cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)**
Byddwn yn parhau i weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chynlluniau pobl ehangach i wella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Coleg ymhellach.

- **Parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth cydweithwyr mewn perthynas â phwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.**

Byddwn yn parhau i sicrhau bod mynediad at hyfforddiant yn deg ar draws y Coleg cyfan. Bydd yr holl reolwyr yn cael eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn hyderus wrth gyfathrebu ac eirioli'n agored i bawb ymddangos ymddygiadau cadarnhaol a chynhwysol.

Bydd y Coleg hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy hyfforddiant gorfodol blynyddol.

- **Parhau i weithredu ein prosesau recriwtio yn gyson**

Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau adolygiad o'n harferion recriwtio a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n gyson ac yn wrthrychol drwy gyfathrebu a hyfforddi. Byddwn hefyd yn sicrhau bod rolau newydd yn cael eu hysbysebu ar draws sbectrwm eang o lwyfannau er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl.

- **Mynd i'r afael â'r dosraniad ar sail rhywedd mewn meysydd penodol o'r Coleg**

Mae'r Coleg yn cydnabod bod angen mwy o farchnata a hysbysebu strategol er mwyn annog mwy o ddynion i ymgeisio am yr hyn y gellid eu hystyried yn rolau "anhraddodiadol". Yn y Coleg, gall y rhain gynnwys rolau darlithio mewn Gofal, Gwaith Cymdeithasol, a Gwallt a Harddwch Yn yr un modd, bydd y Coleg hefyd yn ceisio cyrraedd "cronfa ymgeiswyr" benywaidd mwy ar gyfer rolau mewn Adeiladu a Pheirianeg.

- **Datblygu ein cronfa dalent yn weithredol**

Byddwn yn datblygu model rheoli dilyniant a thalent a fydd yn sicrhau bod dyrchafiadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar botensial a pherfformiad.

- **Annog gweithio hyblyg yn weithredol**

Er nad yw pob rôl yn y Coleg yn rhai y gellir eu gwneud yn hyblyg oherwydd eu natur weithredol, lle bo'n bosibl, byddwn yn parhau i annog ffyrdd hyblyg o weithio yn weithredol er mwyn sicrhau y gallwn gefnogi ein cydweithwyr wrth iddynt gyflawni cydbwysedd bywyd gwaith cadarnhaol.

Byddwn yn edrych ymlaen at adrodd ar ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn 2021 a'r gwelliannau y byddwn wedi eu gwneud yn ystod y 12 mis nesaf.

Rydym yn cadarnhau bod y data a adroddir o fewn y ddogfen hon yn gywir.

Guy Lacey
Pennaeth

